# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Brompton Lodge Limited**

**54 Ffordd Rhos**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4RY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Brompton Lodge limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Brompton Lodge Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Ionawr 2021 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus yn y cartref ac yn mwynhau byw yma. Maent yn canmol caredigrwydd a chyfeillgarwch y staff a'r tîm rheoli, ac yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref.

Caiff amrywiaeth o weithgareddau eu trefnu i ddiddanu ac ysgogi'r bobl, a chaiff hobïau eu hwyluso. Mae'r bobl yn mwynhau'r bwyd a gynigir ac yn cymryd rhan mewn prydau dathlu fel pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill.

Mae'r cartref yn gyfforddus, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r ystafelloedd yn lân ac yn olau. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ac mae pethau sy'n bwysig i'r bobl wedi'u harddangos ar y waliau a'r silffoedd. Caiff yr ystafelloedd eu hailaddurno bob tro y bydd rhywun yn gadael fel bod pawb yn gallu mwynhau amgylchedd iach a newydd. Mae'r tair ystafell gymunedol yn cynnig rhywle i'r bobl eistedd yn ystod y dydd, tra bod eraill o bosibl yn dewis preifatrwydd eu hystafelloedd eu hunain. Mae bysellbad â chod yn sicrhau diogelwch yn y cartref ac yn atal y bobl rhag gadael yn hawdd. Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod hyn ers lles pennaf y bobl.

Mae'n rhaid i'r darparwr wella trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth ac adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiadau o ansawdd y gofal. Bydd hyn yn sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu nodi'n fwy prydlon.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y cartref. Maent yn dewis treulio amser yn y lolfa neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Maent yn dewis p'un a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau ai peidio. Os nad yw'r bobl yn hoffi'r pryd a gynigir, bydd y cogydd yn gwneud rhywbeth arall. Mae gan y bobl ddewis o ran sut, pryd a ble y maent am gyflawni eu harferion dyddiol. Caiff dewis bapurau newydd y bobl eu dosbarthu'n ddyddiol a gallant hefyd ddewis llyfrau i'w darllen oddi ar silff llyfrgell y cartref.

Caiff llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl ei hybu gan staff gofal sy'n gwybod sut maent am gael eu cefnogi a beth sy'n eu gwneud yn hapus. Mae sawl aelod o'r staff gofal wedi gweithio yn y cartref ers blynyddoedd ac yn adnabod y bobl yn dda. Mae'r cofnodion yn helpu i roi gwybod i'r staff am yr hyn sy'n bwysig i'r bobl. Ar hyn o bryd, nid yw ansawdd cofnodion fel ffeiliau gofal yn cael ei archwilio'n rheolaidd, ac rydym wedi gofyn i'r darparwr fynd i'r afael â hyn. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau pan fyddant am wneud hynny, ac mae staff sydd wedi'u cyflogi'n benodol ar gyfer gweithgareddau yn helpu i'w diddanu. Mae'r gwasanaeth yn helpu i ddiwallu anghenion y bobl drwy drefnu apwyntiadau ar eu cyfer gyda'u meddyg, ciropodydd, deintydd ac arbenigwyr sain, a thrwy drefnu ymweliadau gan nyrsys ardal.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff yn cael hyfforddiant ar y mater hwn ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i'w harwain. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r rheolwr ar unrhyw adeg a rhannu pryderon os bydd ganddynt rai. Caiff cyfarfodydd trosglwyddo eu cynnal ar ddechrau pob shifft er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am lesiant y bobl ac am unrhyw newidiadau i'w gofal.

Mae'r cartref yn cynnig llety cartrefol, cynnes a chyfforddus. Ceir tair ardal gymunedol i ddewis ohonynt lle y gall y bobl gymdeithasu a chymryd rhan yn y gweithgareddau a ddarperir. Mae setiau teledu a radio yn darparu adloniant ychwanegol ac mae llyfrgell llawn llyfrau yn cynnig deunyddiau darllen. Mae gan y bobl ystafelloedd wedi'u personoli sydd wedi'u dodrefnu i ddiwallu eu hanghenion, ac mae pob un ohonynt wedi'u haddurno'n hyfryd ac yn lân iawn. Mae'r cartref yn cael ei gadw'n ddiogel drwy fysellbad â chod ar ddrws y fynedfa, ond nid yw pob un o'r preswylwyr yn gallu defnyddio hwn.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a chyfredol i alluogi'r staff i ddarparu gofal priodol sy'n bodloni dewisiadau. Gwelsom fod perthnasau a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cyfrannu at y cynlluniau gofal, a'u bod yn cael eu hadolygu bob mis. Ceir cynlluniau symud a chodi a chario ac asesiadau risg er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn cyflawni eu gweithgareddau'n ddiogel.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt gan fod eu cynlluniau personol yn gyfredol ac ymgynghorir â nhw ynglŷn â'u hanghenion. Gwelsom fod rhai agweddau ar y cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cofnodi hanes y bobl, eu hobïau, eu diddordebau, yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u dewisiadau mewn perthynas â'u harferion dyddiol. Ceir dogfen arall sy'n cofnodi anghenion corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl y person. Nid yw'r nodau a'r camau gweithredu a gofnodir bob amser wedi'u personoli, ond mae'r rheolwr yn awyddus i adolygu'r systemau cynllunio gofal pan fydd y gwasanaeth yn cyflwyno system cadw cofnodion electronig ym mis Mawrth 2024. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt, fel darllen papurau newydd a llyfrau, gwrando ar y radio, lliwio lluniau mewn llyfrau. Gwelsom hefyd y trefnydd gweithgareddau yn annog y bobl i gymryd rhan mewn sesiwn cydganu a Bingo. Mae'r bobl yn canmol y bwyd; dywedodd un ei fod yn '*putting on the pounds*' ers dod i'r cartref gan fod '*the food here is so good'*. Mae ymwelwyr â'r bobl yn dod i'r cartref ar unrhyw adeg. Gwnaethom siarad ag un ymwelydd a ganmolodd y staff, '*they are so kind and always around when you need them'*. Gwnaeth y bobl sy'n byw yn y cartref hefyd ganmol y staff; *'staff are wonderful, especially their attitude towards people here.'*

Mae'r bysellbad â chod ar ddrws y fynedfa/allanfa yn dangos y rhif i'w ddefnyddio i'w agor. Er bod rhai o'r bobl yn gallu defnyddio'r bysellbad hwn, gall y bobl sy'n byw gyda dementia neu amhariad ar y golwg ei chael hi'n anodd gwneud hynny. Gall y staff helpu'r bobl nad yw gadael y cartref yn peri risg iddynt; byddant yn agor y drws iddynt os byddant yn ei chael hi'n anodd gwneud hynny. O ran y rheini nad oes ganddynt y galluedd i ddeall peryglon, ac sy'n wynebu mwy o risg os byddant yn gadael y cartref, rhaid i'r darparwr sicrhau y ceir yr awdurdod cyfreithlon perthnasol i gyfyngu ar eu symudiad. Rhaid iddo gymryd pob cam i sicrhau bod mesurau o'r fath er lles pennaf y rhai yr effeithir arnynt. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl ei hybu gan staff gofal sy'n gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol. Mae'r cofnodion yn dangos bod apwyntiadau'n cael eu trefnu gyda meddygon teulu, deintyddion ac optegwyr, a bod nyrsys ardal yn ymweld â'r

cartref.  Gwelsom fod y bobl yn defnyddio cymhorthion cerdded i wella eu symudedd a bod y staff yn helpu'r bobl yn amyneddgar i symud o gwmpas y cartref. Mae cyfarpar wedi cael ei brynu er mwyn gwella cysur a diogelwch y bobl, ac mae rhai pobl wedi dod â'u dodrefn eu hunain i'w helpu; gwelsom fod gan un person gadair freichiau sy'n gostwng.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth mewn amgylchedd a lleoliad sy'n addas i ddiwallu anghenion y bobl. Ceir dwy lolfa ac ystafell fwyta lle mae'r bobl yn eistedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu. Mae'n well gan rai o'r bobl fwyta gan ddefnyddio byrddau dros gadeiriau neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Ceir teledu ym mhob ardal eistedd a radio i ddiddanu'r bobl drwy'r dydd. Gwelsom fod ystafelloedd gwely'r bobl yn gynnes, yn gartrefol iawn, yn gyfforddus ac yn lân. Mae pob ystafell wedi'i dodrefnu a'i haddurno'n unol â chwaeth y person ac wedi'i phersonoli â phethau sy'n bwysig iddo. Bob tro y bydd rhywun yn gadael y cartref, caiff ei ystafell ei ailaddurno â llenni a phelmetau newydd, a gwelsom fod unedau ymolchi newydd wedi cael eu gosod yn yr ystafelloedd ensuite. Gall y bobl alw am gymorth drwy ddeialu 0 ar y ffôn sydd ar gael ym mhob ystafell. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y staff yn cadw golwg ar unrhyw un nad yw'n gallu defnyddio'r ffôn hwn. Nid yw'r arwyddion o gwmpas y cartref yn ddwyieithog ac nid yw'r cartref yn darparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae digon o doiledau, ystafelloedd ymolchi a chyfleusterau cawod â chymorth, a lifft i gludo'r bobl rhwng lloriau. Gwelsom fod cyfarpar arbenigol ar gael i'r rhai sydd ei angen. Mae'r ystafelloedd yn fawr ac yn cynnwys lle i ddodrefn ystafell wely a seddau i ymwelwyr. Mae gerddi i'r bobl eu defnyddio pan fo'r tywydd yn braf. Mae'r gegin yn lân ac yn drefnus, a chaiff cofnodion perthnasol eu cadw; mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dyfarnu sgôr o 5 i'r gegin, sef y sgôr uchaf posibl y gellir ei hennill. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn hoffi eu hystafelloedd ac yn teimlo ei fod yn gartref iddynt.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod risgiau'n cael eu lleihau drwy drefnu gwiriadau diogelwch. Gwelsom dystysgrifau a chofnodion i ddangos bod gwiriadau diogelwch nwy a thrydan wedi cael eu cwblhau, ynghyd â chofnodlyfr tân yn cynnwys y dyddiadau y cafodd gwahanol brofion eu cynnal. Mae'r staff yn cofnodi unrhyw ardaloedd y mae angen eu hatgyweirio a'u hadnewyddu yn y 'llyfr cynnal a chadw', a gwelsom fod y rhain yn cael eu ticio oddi ar y rhestr ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oes gan y darparwr drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio a'i lywodraethu'n effeithiol. Nid yw'r polisïau, yr arferion na'r gweithdrefnau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Gwelsom fod rhai o'r cofnodion yn anghywir ac yn anghyflawn ac nad oeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau statudol. Gwelsom fod y darparwr wedi cyhoeddi arolwg boddhad ac wedi casglu'r canlyniadau, ond nid oes adroddiad i ddangos bod adolygiad dwyieithog o Ansawdd y Gofal wedi cael ei gwblhau; nid oes digon o waith sicrhau ansawdd wedi'i wneud i ddangos yn llawn yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y gwasanaeth a lle y gellid gwneud gwelliannau. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i roi cyfarwyddyd i'r staff a chadw'r preswylwyr yn ddiogel. Mae'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a chadarnhaodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw y gallant siarad â'r rheolwr ar unrhyw adeg. Gwnaethant ddweud y byddent bob amser yn teimlo'n gyfforddus yn mynegi eu safbwyntiau a'u pryderon. Mae'r staff hefyd yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un gyda'u rheolwr er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â gwaith a rhannu eu safbwyntiau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref. Dywedodd un, '*people living here always come first*' ac '*I never feel like I'm coming to work, it's like a family'.*

Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff. Gwelsom fod y rhestrau gweithio yn cofnodi pa staff sydd ar ddyletswydd a'u bod yn sicrhau bod digon o staff yn bresennol i ddiwallu anghenion presennol y bobl. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt amser i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau ac amser i sgwrsio â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae cofnodion y staff yn dangos bod gweithdrefnau fetio ar waith er mwyn helpu i recriwtio'n ddiogel. Gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant blynyddol ar symud a chodi a chario. Mae gan y staff gofal dystysgrifau presenoldeb ar gyfer sesiwn hyfforddiant gorfodol undydd ar amrywiaeth o bynciau perthnasol, a chaiff hyn ei ddiweddaru bob chwe mis. Mae'r rheolwr yn hyderus bod y wybodaeth a ddarperir ar y diwrnod hyfforddiant hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff i weithio'n ddiogel.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 66 | Nid oes gan y darparwr systemau a phrosesau digonol ac effeithiol ar waith er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch, effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth y gwasanaeth. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Mae pobl yn byw yn y cartref nad oes ganddynt alluedd meddyliol i gydsynio i'r allanfa dan glo. Dim ond ar gyfer un person y mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael eu cymeradwyo. Os nad oes gan bobl alluedd meddyliol i gydsynio, rhaid i'r darparwr sicrhau bod unrhyw benderfyniad i gyfyngu ar ryddid unrhyw berson yn seiliedig ar gytundeb er lles pennaf a bod awdurdod cyfreithlon ar waith. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/04/2024